# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

### Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2000

**Cefndir**

Cyllidir Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn rhannol drwy grant gan y Cynulliad ac yn rhannol drwy osod ardollau ar yr awdurdodau lleol ("awdurdodau bilio") o fewn eu hardal.

Mae Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 (fel y'u diwygiwyd ym 1996) ar hyn o bryd yn pennu mwyafswm yr ardoll a ganiateir drwy gyfeirio at fformwla sy'n seiliedig ar swm y grant sydd i'w roi i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gan y Cynulliad.

Bydd y rheoliadau drafft sydd gerbron y Cynulliad yn diwygio hyn drwy amnewid mwyafswm penodol ar gyfer pob Parc Cenedlaethol.

Dim ond ar gyfer y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 ac 1 Ebrill 2001 y mae'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys. Y bwriad yw caniatáu amser i sefydlu fformwla ddiwygiedig a fewnosodir wedyn gan orchymyn diwygio pellach a fydd yn gweithredu wedyn o flwyddyn i flwyddyn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi o ran materion y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Ar ôl cael y fantais o weld y rheoliadau hyn yng nghamau cynnar y drafftio, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi rhai pwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

Gan hynny, dim ond y pwyntiau canlynol y mae angen eu crybwyll bellach.

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae angen prif lythyren ar ddechrau’r datganiad agoriadol nad yw’r nodyn yn rhan o’r Rheoliadau, a hynny yn y ddau destun.

**Yn dod i rym**

Dylid mewnosod y dyddiad, ar frig y Rheoliadau ac yn Rheoliad 1(1), yn y copi a osodir yn ffurfiol gerbron y Cynulliad.

**Y Troednodiadau**

Er mwyn osgoi trafferthion gyda’r prosesydd geiriau, mae’r troednodiadau ar hyn o bryd mewn fformat tudalen llawn. Er hynny, dylent fod mewn fformat dwy golofn yn y fersiwn printiedig.

**Teitl**

Mae cromfachau o amgylch "Ardollau" yn y teitl yn y penawdau, ond nid yw’r cromfachau yn ymddangos yn y dyfyniad ei hun yn Rheoliad 1(i). Awgrymir mai’r ffurf heb y cromfachau yw’r gorau.

**M. GERMAN**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-045

25 Ionawr 2000